

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd yn Neuadd Talgai, Llandygai
ar nos Iau 10 Mai, 2018 am 1900**

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Alun Thomas

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Dafydd Jones

Y Cynghorydd Kevin Williams

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Dafydd Jones.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Geraint Hughes a Myfanwy Jones

3. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2018 yn ddarostyngedig i Partneriaeth Tirwedd y Carneddau am gael “*sgwrs gyda rhai bugeiliaid.*”

4. Materion yn codi o'r cofnodion

Arriva– adroddwyd bod rhaglen am fod ar Radio BBC Taro'r Post am y gwasanaeth bws sydd wedi diflannu, gan bod nifer fawr o gwynion wedi eu derbyn.

Palmant Tan y Lôn at 'Gypsy Corner'- Cyngor Gwynedd wedi cyfarfod ar y safle gyda'r Cyng. Geraint Hughes a Alun Thomas, lle derbyniwyd bod cyflwr y palmant yn warthus. Cytunodd Cyngor Gwynedd i drin y safle yn yr wythnosau nesaf. Siom nad yw'r gwaith wedi ei ddechrau. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd beth yw'r oedi.

System atal-llifogydd –cais wedi ei wneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth am holl gostau'r system. Cafwyd ymateb mai £1,063,000 oedd y costau ar hyn o bryd, ond nid yw'r gwaith wedi ei orffen. Penderfynwyd holi am ffigyrau mwy manwl, o dan penawdau cyllid. Y Clerc i holi Dafydd Meurig am hyn.

Sêl wyna- penderfynwyd anfon nodyn atgoffa drwy lythyr wedi ei gofnodi. Yr anfoneb dal yn ddyledus.

Cae chwarae Tal y Bont- angen gofyn wrth Partneriaeth Ogwen i hel syniadau ar gyfer hybu defnydd o'r cae chwarae.

Tyllau yn y ffordd- adroddwyd bod twll arall wedi ymddangos ar Lôn Ddŵr, ac bod y Lôn ger Bronydd dal angen ei lanhau. Hefyd mae twll arall wedi ymddangos yn Bryn Eglwys.

Rhwystrau cyflymder Tal y Bont- angen eu paentio gan eu bod yn anodd i'w gweld gyda'r nos. Y Clerc wedi hysbysu Cyngor Gwynedd

Arloesi Gwynedd Wledig- adroddodd y Cyng. Geraint Hughes am beilot wi-fi. Y Cyngor yn awyddus iawn i fod yn rhan o'r prosiect yma. Arloesi Gwynedd Wledig am gysylltu pan fydd yna fwy o wybodaeth.

5. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Neuadd Talgai (Ebrill)

£25.00

6. Gohebiaeth

Cyflwynwyd- llythyr gan Partneriaeth Ogwen ynglŷn a trosglwyddo'r llyfrgell i ofal y gymuned a'r costau ynghlwm. Penderfynwyd bod y Cyngor am fod yn rhan o'r gytundeb.

Cyflwynwyd- llythyr gan H Roberts ynglŷn a hawliau pori. Y Clerc i ymateb i'r llythyr.

Cyflwynwyd- llythyr gan Mr & Mrs Temple Morris ynglŷn a pori ar y mynydd. Y Clerc i ymateb eu bod yn cefnogi'r bugail.

Cyflwynwyd- llythyr gan Partneriaeth Ogwen-copi o gynllun busnes drafft. Pawb angen ei ddarllen a dod yn ôl gyda unrhyw sylwadau.

Cyflwynwyd- e-bost gan Rheolwr Gwasanaethau Iaith Gymraeg – ymgynghoriad ar Gynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023. Penderfynwyd bydd pawb yn ymateb fel unigolion.

Cyflwynwyd- adroddiad gan Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol-Adroddiad Blynyddol 2017-18. Adroddwyd bod lwfans blynyddol ar gael i'r aelodau ar gyfer costau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac yn y blaen. Bydd angen i'r aelodau gysylltu gyda'r Clerc os am hawlio'r taliad.

Cyflwynwyd- llythyr gan M Hughes ynglŷn a pori ar y mynydd. Y Clerc i ymateb.

Cyflwynwyd- e-bost gan Cyngor Gwynedd-rhaglen waith yr Adran Briffyrdd Mai 2018. Nodwyd yr ohebiaeth.

Cyflwynwyd- llythyr gan BHIB ynglŷn a adnewyddu'r polisi yswiriant. Y Clerc i weithredu unwaith bydd prisiau cymharol wedi eu derbyn.

7. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Cyfarfod Fforwm Ogwen- adroddodd y Cyng. Megan Tomos am y cyfarfod. Trafodwyd y broblem parcio sydd fyny wrth y llyn, gyda cheir yn parcio hanner ar y palmant sy'n achosi trafferthion a pheryglon. Adroddwyd bod 3 ffermwr lleol yn fodlon agor eu caeau ar gyfer parcio.

8. Penodi Archwilydd Mewnol

Y Cyngor yn hapus i benodi Parry & Co fel archwilydd mewnol.

9. Penderfyniadau Cynllunio:

Dim ceisiadau

Ceisiadau Cynllunio:

NP3/21/42/B

Marlow, Llanllechid

Dymchwel rhan o'r estyniad unllawr presennol ac adeiladu estyniad unllawr mwy.

Penderfyniad- Dim gwrthwynebiad.

10. Materion Brys

Cabl teleffon- adroddwyd bod cabl wedi disgyn ar hyd llwybr cyhoeddus rhwng Tan y Garth a Gerlan ac ei fod yn berygl i gerddwyr. Y Clerc i ysgrifennu at BT a Chyngor Gwynedd.